



**Comisiwn
y Gyfraith**

Diwygio'r gyfraith



Rhwymedïau ariannol ar ysgariad a diddymiad

Crynodeb o'r adroddiad cwmpasu

Ein Hadroddiad Cwmpasu

Pwy ydym ni? 	Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.
Beth yw hwn? 	Y gyfraith sy'n llywodraethu rhwymedïau ariannol ar adeg ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil. Gall y llys wneud gorchmynion rhwymedïau ariannol i ddatrys effeithiau ariannol cwpl sy'n gwahanu. Mae'r gorchmynion hyn yn cynnwys trosglwyddo eiddo, gwneud cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, a adwaenir fel cynhaliaeth i briod, a gorchmynion rhannu pensiynau.
Beth ydym yn ei wneud? 	Rydym yn ystyried a oes angen diwygio'r gyfraith sy'n ymdrin â rhwymedïau ariannol. Mae ein gwaith yn ymdrechu i benderfynu a yw'r gyfraith bresennol yn rhoi fframwaith cydlynus sy'n galluogi cyplau sy'n mynd drwy ysgariad neu ddiddymiad ddisgwyl canlyniadau teg a digon sicr. Rydym wedi nodi problemau â'r gyfraith bresennol, ac wedi awgrymu pedwar model posibl y gallai unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol gael eu seilio arnynt. Fodd bynnag, nid yw'n Hadroddiad Cwmpasu'n cynnwys argymhellion i ddiwygio'r gyfraith.
Ym mhle allaf i weld yr Adroddiad Cwmpasu? 	Mae'r Adroddiad Cwmpasu llawn ar gael ar ein gwefan: https://lawcom.gov.uk/project/financial-remedies-on-divorce/
Beth fydd yn digwydd nesaf? 	Bydd y Llywodraeth yn ystyried ein Hadroddiad Cwmpasu ac yn penderfynu a oes angen rhagor o waith diwygio yn y maes hwn.

Y Crynodeb hwn

Mae'r Crynodeb hwn yn egluro beth yw'r prosiect ac yn tynnu sylw at ein prif gasgliadau a'r pedwar model a nodwyd gennym, ac a allai fod yn sail i unrhyw ddiwygiadau i'r gyfraith rhwymedïau ariannol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n crynhoi ein holl Adroddiad Cwmpasu.



Cyflwyniad

Mae diwedd priodas neu bartneriaeth sifil yn aml yn amser anhapus a llawn straen i gwpl. Hefyd, yn ychwanegol at ochr gyfreithiol diweddu perthynas drwy ysgaru yn achos priodas neu ddiddymiad yn achos partneriaeth sifil, bydd yn rhaid i'r cwpl wneud trefniadau ar gyfer unrhyw blant sydd gan y teulu, a datrys canlyniadau ariannol y gwahanu. Yr agwedd olaf hon sy'n cael y sylw yn ein Hadroddiad Cwmpasu.

Nid yw ein Hadroddiad Cwmpasu'n gwneud argymhellion i ddiwygio'r gyfraith. Yn hytrach, mae'n amlygu problemau yn y gyfraith bresennol ac yn nodi a oes ei angen diwygio, ac mae'n ystyried modelau a allai fod yn sail i unrhyw ddiwygiadau i'r gyfraith rhwymedïau ariannol yn y dyfodol.

Ein Cylch Gorchwyl

Mae Cylch Gorchwyl ein prosiect wedi'i ddisgrifio'n llawn yn yr Atodiad i'n Hadroddiad Cwmpasu.

Mae'n cynnwys y cwestiwn allweddol sy'n cael ei drafod yn ein gwaith cwmpasu – a yw'r gyfraith bresennol sy'n gysylltiedig â rhwymedïau ariannol ar ysgariad a diddymiad, yng Nghymru a Lloegr, yn rhoi fframwaith cydlynus lle gall partïon mewn ysgariad neu ddiddymiad ddisgwyl canlyniadau teg a digon sicr.

Ysgariad a Diddymiad

Er hwylustod, rydym yn cyfeirio yn y Crynodeb hwn ac yn ein Hadroddiad Cwmpasu at briod ac ysgariad, ond dylid cymryd bod y cyfeiriadau hyn yn cynnwys partneriaid sifil a diddymu partneriaeth sifil hefyd oni nodir yn wahanol.

Ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid

Yn ystod ein prosiect cwmpasu gwnaethom gwrdd â rhanddeiliaid â diddordeb mewn diwygio rhwymedïau ariannol. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys cyfreithwyr arbenigol, barnwyr, academyddion, sefydliadau cynrychioliadol cyfreithiol, ac adrannau eraill o'r Llywodraeth.

Buom yn ymgysylltu â'r cyhoedd, yn cynnal digwyddiad ar-lein, a gwahoddwyd y cyhoedd i gysylltu â ni'n uniongyrchol i rannu eu profiadau a'u cynigion ar gyfer diwygio. Hefyd, cawsom gyfarfodydd â sefydliadau cymdeithas sifil sy'n cynrychioli carfanau o'r cyhoedd; er enghraifft, grwpiau sy'n cynorthwyo menywod, rhieni sengl, tadau neu ddioddefwyr cam-drin domestig. Fodd bynnag, gan mai prosiect cwmpasu oedd hwn, ni chynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn a fyddai'n angenrheidiol cyn gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer diwygio.

Buom hefyd yn ymgysylltu â chyfreithwyr ac academyddion mewn awdurdodaethau eraill, i'n helpu i ddeall sut mae'r gyfraith yn gweithio mewn mannau eraill, ac i lywio ein gwaith.

Y gyfraith bresennol

Mae'r gyfraith sy'n ymdrin â rhwymedïau ariannol yn ystod ysgariad wedi'i chynnwys yn Neddf Achosion Priodasol 1973, sy'n cael ei hadleisio yn Neddf Partneriaeth Sifil 2004 ar gyfer diddymu partneriaethau sifil.

Mae'r gyfraith bresennol yn rhoi disgrisiwn eang i'r barnwr sy'n clywed yr achos wrth benderfynu a ydynt am wneud

gorchmynion rhwymedïau ariannol. Mae Adran 25 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yn rhoi gofyniad ar y llys i ystyried holl amgylchiadau'r achos, ar ôl rhoi ystyriaeth yn gyntaf i les unrhyw blant o dan 18 oed. Rhaid i'r llys ystyried rhestr o ffactorau, a ddangosir yn y blwch isod.

Adran 25(2) o Ddeddf Achosion Priodasol 1973

Mae Adran 25(2) yn rhestru'r materion y dylai'r llys roi sylw penodol iddynt pan fydd yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn rhwymedïau ariannol. Y rhain yw:

- a) incwm, gallu i ennill ac adnoddau'r ddau briod;
- b) anghenion, rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ariannol;
- c) safon byw yn ystod y briodas;
- d) oedran y partïon a hyd y briodas;
- e) unrhyw anabledau sydd gan y ddau briod;
- f) cyfraniadau at lesiant y teulu;
- g) ymddygiad y byddai'n annheg i'r llys ei ddiystyru; a
- h) gwerth unrhyw fuddiant y bydd y naill briod neu'r llai yn colli'r siawns o'u cael oherwydd yr ysgariad.

Yn ystod y blynyddoedd ers pasio Deddf Achosion Priodasol 1973, cafodd y statud ei ddehongli gan y llys mewn cyfres o benderfyniadau allweddol. Mae'r dull cyfredol a fabwysiadwyd gan y llys wrth weithredu'r disgresiwn a geir yn Neddf Achosion Priodasol 1973 yn adlewyrchu'r datblygiadau cyfraith sifil hyn; nid yw'r statud fodd bynnag yn cynnwys dim diben nac amcan penodol, ac ni fu newid sylweddol iddi ers 1973.

Canlyniad hyn yw na fydd darllen y ddeddfwriaeth yn egluro sut mae'r llys yn debygol o gymhwyso'r ffactorau a restrir uchod i ddatrys achos unigol, gan fod yr esboniad hwnnw wedi'i gynnwys yn y gyfraith achosion. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r gyfraith achosion yn ymwneud ag achosion gwerth net uchel, ac nid yw'r rhain yn debyg i sefyllfa'r rhan fwyaf o gyplau sy'n ysgaru.

Ers penderfyniad Tŷ'r Arglwyddi yn achos *White v White* yn 2000, lle penderfynwyd sut i weithredu ei ddisgresiwn, bydd y llys yn trin y gwahanol rolau a all fod wedi eu chwarae gan y ddau briod yn ystod y briodas fel rhai cyfartal, wrth ymdrechu i sicrhau canlyniad teg. Mynegwyd tegwch gan benderfyniadau llys diweddarach fel rhai lle dylid ystyried tair elfen bosibl: anghenion, iawndal a rhannu, er bod consensws yn brin ar gynnwys a chwmpas pob un o'r elfennau hyn.

Yn ymarferol, yn y rhan fwyaf o achosion, lle nad yw'r asedau sydd ar gael yn ddigon i ddiwallu anghenion ariannol unigol y cwpl, bydd y llys yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unrhyw blant, ond gan geisio pan yn bosibl i sicrhau bod anghenion y cwpl sy'n ysgaru'n cael eu diwallu. Yn yr achosion rheini lle mae asedau sydd dros ben yr hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion, bydd y llys yn ymdrechu i rannu asedau'n deg, a fydd yn golygu fel arfer eu rhannu'n gyfartal oni bai bod rheswm i beidio â'u rhannu yn gyfartal.



Anghenion ariannol

Nid yw anghenion ariannol yn cael eu diffinio yn Neddf Achosion Priodasol 1973, ac rydym wedi nodi yn ein gwaith blaenorol a oedd yn edrych ar agweddau ar gyfraith rhwymedïau ariannol bod “anghenion” yn gysyniad eang iawn heb un diffiniad. Un o'r heriau o ran y gyfraith bresennol yw'r cysyniad amwys o anghenion.

Mae cyfraith achosion wedi barnu bod “anghenion” yn cwmpasu ystod eang o fathau o ddarpariaeth, gan gynnwys anghenion incwm a chyfalaf y cwpl sy'n ysgaru, anghenion unrhyw blant o'r briodas, yr angen am gartref, yr angen i ddarparu ar gyfer ymddeoliad ac, i'r graddau sy'n bosibl, i sicrhau nad yw'r naill barti na'r llall yn ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth. Mae anghenion fel arfer yn cael eu hasesu gyda chyfeiriad at safon byw'r cwpl yn ystod y briodas, ond gall ffactorau eraill fel hyd y briodas ac oedran y ddau briod hefyd fod yn berthnasol. Cafodd anghenion eu dehongli hefyd yng nghyd-destun yr hyn sydd ei angen ar y ddau briod i'w galluogi i fod yn annibynnol yn ariannol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd digon o asedau i ddiwallu anghenion y ddau briod.

Rhannu

Yn yr achosion hynny lle mae gwarged asedau ar ôl i anghenion gael eu diwallu, mae cyfraith achosion yn dangos y dylai asedau gael eu rhannu, ar yr amod eu bod yn eiddo priodasol (fel y disgrifir isod). Mae'r egwyddor rhannu yn aml yn arwain at rannu'n gyfartal, oni bai bod rheswm da i'r gwrthwyneb. Nid yw rhannu cyfartal yn rheol, ond mae'n cael ei weld fel man cychwyn perthnasol.

Eiddo priodasol ac amhriodasol

Cysyniad allweddol wrth edrych ar rwymedïau ariannol yw'r cysyniad o eiddo priodasol, term sy'n cael ei ddiffinio mewn llawer o awdurdodaethau eraill. Yng Nghymru a Lloegr, nid yw eiddo priodasol wedi'i ddiffinio yn Neddf Achosion Priodasol 1973, ond mae wedi'i ddatblygu fel cysyniad mewn cyfraith achosion.

O dan y gyfraith bresennol, tybir fel arfer bod eiddo priodasol yn unrhyw eiddo sydd wedi crynhoi yn ystod y briodas, ac eithrio rhoddion neu eiddo mae'r naill briod neu'r llall wedi'i etifeddu, ac asedau a grynhowyd gan un priod ar ôl gwahanu. Dywed cyfraith achosion hefyd fod y cartref teuluol yn eiddo priodasol, er y gall ei darddiad, a defnydd a bwriad y cwpl olygu na fydd yn cael ei rannu'n gyfartal.

Mae cyfraith achosion yn eglur er y gall pob eiddo o bosibl fod ar gael i ddiwallu anghenion ar adeg ysgariad, ni fydd eiddo amhriodasol fel arfer yn cael ei rannu ar ôl i anghenion gael eu diwallu. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau o hyd mewn dehongliad barnwrol o ran sut, a pha bryd, mae eiddo amhriodasol yn cael ei rannu. Mae gwahaniaethau barn hefyd o ran pa bryd y gall eiddo sy'n dechrau fel eiddo amhriodasol newid i fod yn eiddo priodasol dros amser.

Beth sy'n digwydd yn ymarferol?

Cyfrannau Teg



Drwy gydol ein hadroddiad cwmpasu, rydym yn cyfeirio at brosiect ymchwil y Nuffield Foundation, “Fair Shares? Sorting out money and property on divorce”.

Mae'r adroddiad Fair Shares yn seiliedig ar arolwg ar-lein o 2,415 o bobl a chyfweliadau trylwyr ansoddol â 53 o unigolion a oedd wedi ysgaru yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

Mae Fair Shares yn cynnwys data a thystiolaeth gynhwysfawr ar sut mae'r gyfraith bresennol ar rwymedïau ariannol ar ysgariad yn gweithio'n ymarferol, mewn achosion “ysgariad bob dydd”.

Mae Fair Shares yn ymdrechu i ateb tri chwestiwn.

- (1) Pa drefniadau ariannol ac eiddo a wneir ar ysgariad?
- (2) Sut mae cyplau'n gwneud y trefniadau hynny?
- (3) Pa effeithiau tymor byr sy'n deillio o'r trefniadau a wneir?

Yn bwysig iawn, mae Fair Shares yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o ysgariadau'n achosion “anghenion”, lle nad oes digon o asedau i ddiwallu anghenion ariannol unigol y cwpl, a rhai'r plant. Yn yr achosion roedd Fair Shares wedi'u hastudio, roedd canolrif gwerth sylfaen asedau (gan gynnwys cartrefi, pensiynau, a chan gynnwys y cyplau hynny â dyledion yn unig, neu heb ddim asedau) yn £135,000 am bob cwpl oedd yn ysgaru.

Noda Fair Shares hefyd fod y rhan fwyaf o gyplau sy'n ysgaru'n gwneud eu trefniadau eu hunain heb lawer, neu ddim, arweiniad cyfreithiol.

Beirniadaeth o'r gyfraith bresennol


Mae ein Hadroddiad Cwmpasu'n edrych ar y beirniadu a fu ar y gyfraith bresennol, ac nid yw'r rhain i gyd wedi'u rhestru yn y Crynodeb hwn. Mae'r brif feirniadaeth o'r gyfraith yn ymwneud â'r disgresiwn eang sydd ar gael i'r llys, a'r honiad fod y gyfraith o'r herwydd yn ansicr ac yn anodd i gyplau sy'n ysgaru ei deall.

Yn ymarferol ni fydd datrysiad "pwrpasol" neu "deg" yn cael ei osod gan y llys ar y rhan fwyaf o gyplau sy'n ysgaru yn seiliedig ar ffeithiau eu sefyllfa benodol. Ni fydd y rhan fwyaf o gyplau'n gwneud cais i'r llys i ddatrys canlyniadau ariannol eu hysgariad, a bydd llai byth yn dilyn y broses honno at benderfyniad terfynol.

- Mae ystadegau swyddogol yn awgrymu mai dim ond tua 40% o gyplau a oedd yn ysgaru, yn 2023, a wnaeth gais am orchmynion rhwymedïau ariannol, ac o'r ceisiadau rheini, dim ond 29% a heriwyd. Ni chafodd 71% o'r ceisiadau am rwymedïau ariannol eu herio, sy'n cynnwys rhai a wnaed gan gyplau sydd wedi dod i gytundeb y maent yn gofyn i'r llys ei wneud yn un rhwymol.
- Ni fydd llawer o bobl yn cael cyngor cyfreithiol hyd yn oed. Canfu'r adroddiad Fair Shares mai dim ond 32% o gyplau sy'n ysgaru a ddywedodd eu bod yn cael rhyw fath o gymorth cyfreithiol i wneud trefniadau ariannol.

Mae beirniaid y gyfraith yn honni bod y disgresiwn eang yn y gyfraith yn dueddol o annog anghytuno ac anghydfodau, yn hytrach na helpu cyplau i gyrraedd setliad.

- Hyd yn oed pan fydd cyplau'n cael cyngor cyfreithiol, mi allant fod â disgwyladau gwahanol ynglŷn â chanlyniadau, gan ei gwneud yn anos i bobl ddod i gytundeb.
- Mae diffyg amcan clir yn y gyfraith, a'r disgresiwn eang sydd ar gael i'r llys yn ei gwneud yn anodd i gyplau sy'n dymuno negodi rhannu eu harian rhwng ei gilydd, gan obeithio cyrraedd setliad tebyg i'r hyn y gallai llys ei orchymyn.
- Gall yr ansicrwydd hwn fod yn fwy problemus fyth i rai heb gynrychiolaeth gyfreithiol, sy'n llai tebygol o allu deall sut y gallai'r gyfraith gael ei chymhwyso yn eu hachos penodol hwy, a'r hyn a allai fod yn gytundeb teg.



Mae beirniaid y gyfraith bresennol hefyd yn dadlau y bydd costau cyfreithiol (hynny yw, y ffioedd a delir i gyfreithwyr os bydd un priod yn cael cynrychiolaeth gyfreithiol) yn codi o ganlyniad i'r disgresiwn sy'n rhan o'r gyfraith bresennol, a bod hynny'n achosi ansicrwydd.

- Os na all cwpl gytuno, bydd costau cyfreithiol yn cynyddu, yn enwedig os bydd yn rhaid i'r cwpl ofyn i'r llys ddatrys canlyniadau ariannol eu hysgariad.
- Gall y costau sy'n gysylltiedig â chynrychiolaeth gyfreithiol ac achos llys fod yn rhwysr, gan arwain at ystyriaethau o ran mynediad at gyfiawnder.
- Fodd bynnag, mae adroddiad Fair Shares yn awgrymu bod y costau cyfreithiol neu costau cyfryngu'n cymharol isel i lawer o gyplau sy'n ysgaru.

Gall cyplau benderfynu drostynt eu hunain sut maent yn dymuno i'w hasedau gael eu rhannu yn achos ysgariad, drwy gael cytundebau cyn priodi. Fodd bynnag, er bod y gyfraith bresennol yn edrych ar gytundebau cyn priodi fel ffactor pwysig i'w ystyried wrth benderfynu pa ganlyniad sy'n briodol, nid yw cytundebau o'r fath yn rhwymol ac ni allant amharu ar bŵer y llys i wneud gorchmynion rhwymedïau ariannol.

Mae'r rhain a beirniadaeth bellach o'r gyfraith bresennol yn cael eu hystyried yn fanwl yn ein Hadroddiad Cwmpasu.

Gweithdrefnau ac arferion cyfredol

Mae ein Hadroddiad Cwmpasu'n canolbwyntio ar y gyfraith rhwymedïau ariannol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ystyried y weithdrefn a ddefnyddir gan y llys mewn ceisiadau am orchmynion rhwymedïau ariannol, yn ogystal â'r ystod o opsiynau sydd ar gael i gyplau sy'n dymuno datrys canlyniadau ariannol eu hysgariad heb fynd i lys.

Yn ogystal â mynegi eu barn ar y gyfraith bresennol, soniodd rhanddeiliaid wrthym am anawsterau a brofwyd gan rai a fu'n rhan o broses rhwymedïau ariannol y llys, a phroblemau gweithdrefnol ac ymarferol eraill. Er bod ein hadroddiad yn canolbwyntio ar y gyfraith yn hytrach na phroses, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod y Llywodraeth yn ymwybodol o'r pryderon hyn.

Rydym yn dod i'r casgliad pe byddai'r Llywodraeth yn penderfynu mynd ati i ddiwygio rhwymedïau ariannol, yna dylid ystyried cynnwys diwygiadau gweithdrefnol fel rhan o unrhyw waith. Ymddengys fod perthynas glos rhwng diwygio sylweddol a diwygio gweithdrefnol, ac y byddai'n rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r gyfraith sylwedd ystyried yr effaith ar sut mae achosion yn cael eu datrys yn ymarferol.

A oes angen diwygio'r gyfraith?

Yn ein Hadroddiad Cwmpasu, rydym yn dod i'r casgliad bod angen diwygio'r gyfraith rhwymedïau ariannol bresennol, er bod ffurf y diwygio'n fater i'r Llywodraeth benderfynu arno.

Nid yw'r gyfraith bresennol sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Achosion Priodasol 1973 yn adlewyrchu'r datblygiadau pwysig i'r gyfraith rhwymedïau ariannol sydd wedi deillio o benderfyniadau barnwrol. Ynghyd â'r disgresiwn eang a geir yn y gyfraith bresennol, mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl i unigolyn sy'n mynd drwy ysgariad ddeall, drwy ddarllen y statud, sut y caiff eu hachos ei benderfynu. Mae diffyg sicrwydd yn y gyfraith, a hefyd hygyrchedd i raddau, a gellid dadlau nad yw hynny'n gydnaws â'r rheol gyfreithiol.

Er bod proses y llys, ac opsiynau datrys anghydfodau y tu allan i'r llys, yn annog cyplau i geisio setlo eu hanghydfodau ariannol, mae natur ddisgresiynol y gyfraith bresennol yn ei gwneud yn anodd negodi. Gellid honni bod graddfa'r disgresiwn, a'r ansicrwydd yn y gyfraith sy'n deillio o hynny'n annog anghydfod yn hytrach na setliad. Hyd yn oed os bydd cwpl yn cael cyngor cyfreithiol, mae'n bosibl na fydd eu cyfreithwyr yn cytuno ar ganlyniad priodol; i rai nad ydynt yn cael cyngor cyfreithiol, mae'r sefyllfa'n fwy aneglur bythr.

Mae'r hyblygrwydd a gynigir gan y dull disgresiynol i gael canlyniad teg, sydd wedi'i addasu ar gyfer amgylchiadau penodol y cwpl yn reddfodol yn ymddangos yn fuddiol. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae hwn yn ddelfryd sy'n anodd ei wireddu. Er y gall cyplau sy'n ysgaru ddisgwyl canlyniadau teg os bydd eu hachos yn cael ei benderfynu gan y llys, ni fydd achos y rhan fwyaf o gyplau'n cael ei glywed gan y llys. Ni fyddant yn elwa ar ganlyniad sydd wedi'i deilwra ar gyfer eu hamgylchiadau penodol hwy. Bydd hyd yn oed cyplau sy'n cael datrysiad barnwrol yn wynebu oedi a chostau cyfreithiol cyn y caiff eu hachos ei benderfynu yn y diwedd.

Yn ein barn ni, nid yw'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud â rhwymedïau ariannol mewn ysgariad a diddymiad, yng ngeiriau'r cwestiwn a ofynnir yn ein Cylch Gorchwyl yn "rhoi fframwaith cydlynus lle gall partïon mewn ysgariad neu ddiddymiad ddisgwyl canlyniadau teg a digon sicr."

Y Llywodraeth ddylai benderfynu sut y gellir datrys y sefyllfa hon, i hybu sicrwydd cynyddol heb golli buddion tegwch a hyblygrwydd.



Modelau i ddiwygio'r gyfraith yn y dyfodol

Mae disgwyl Cylch Gorchwyl ein Hadroddiad Cwmpasu gynnig modelau posibl y gellid seilio diwygiadau i'r gyfraith rhwymedïau ariannol yn y dyfodol arnynt. Rydym wedi adnabod pedwar model diwygio, a ddangosir yn y ffeithlun isod. Ceir disgrifiad manylach o'r modelau hyn ar dudalennau 14 i 16 o'r Crynodeb hwn.

Mae'r pedwar model yn cynrychioli ystod o ddiwygiadau, sy'n amrywio o godeiddio i gyfundrefn eiddo priodasol diofyn. Ar un pegwn o'r sbectrwm mae model sydd wedi'i seilio ar godeiddio'r gyfraith achosion bresennol, sy'n cadw elfen sylweddol o ddisgresiwn barnwrol gyda chynnydd bychan yn unig mewn sicrwydd. Ar y pegwn arall mae model sydd wedi'i seilio ar gyfundrefn eiddo priodasol diofyn, lle mae llawer llai o ddisgresiwn, ond bod y gyfraith yn rhoi llawer mwy o sicrwydd. Mae'r ddau fodel arall yn y canol rhwng y ddau begwn.

Modelau y gellid seilio diwygiadau i'r gyfraith arnynt

Codeiddio	Codeiddio-plws	Disgresiwn dan Arweiniad	Chyfundrefn Ddiodyn
- Newid lleiaf i'r gyfraith bresennol a geir yn Adran 25 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973. - Y gyfraith bresennol fel y byddai wedi datblygu drwy gyfraith achosion wedi'i chodeiddio. - Y llys yn cadw disgresiwn eang.	- Mae'r gyfraith bresennol yn cael ei chodeiddio. - Diwygiadau ychwanegol i ddelio â meysydd penodol lle nad yw'r gyfraith wedi'i setlo eto. - Y llys yn cadw disgresiwn, ond gellir cyflwyno cyfyngiadau ar ddisgresiwn pan yn ymwneud â meysydd diwygio.	- Cyflwyno set o egwyddorion ac amcanion ategol sy'n llywio sut mae disgresiwn y llys yn cael ei weithredu. - Mae'r diwygiadau'n mynd y tu hwnt i'r gyfraith bresennol a geir yn Adran 25 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973.	- Creu cyfundrefn eiddo priodasol. - Cyplau'n gwybod pan fyddant yn priodi sut y bydd eiddo'n cael ei rannu os byddant yn ysgaru. - Lefel uchel o sicrwydd – mae disgresiwn y llys yn gyfyngedig iawn.

Disgresiwn

Sicrwydd

Codeiddio

Byddai codeiddio'n golygu dod ag egwyddorion cyfraith achosion wedi'u setlo ar rwymedïau ariannol mewn ffurf statudol yn Neddf Achosion Priodasol 1973. Dyma fyddai'r ffordd symlaf o ddiwygio – ni fyddai hanfod y gyfraith yn cael ei ddiwygio, ond byddai'n cael ei gyflwyno o fewn fframwaith cydlynus a byddai'n fwy hygyrch. Byddai statud diwygiedig yn datgan yn glir beth yw'r gyfraith, yn hytrach na bod y gyfraith wedi'i chynnwys mewn gwahanol benderfyniadau llys.

Byddai angen i egwyddorion sefydledig tegwch, anghenion a rhannu gael eu hymgorffori mewn unrhyw statud diwygiedig. Byddai rhannu wedi'i gyfyngu i eiddo priodasol fel sy'n ddealladwy drwy'r gyfraith achosion bresennol. Byddai eiddo amhriodasol yn parhau'n eiddo i'r priod sy'n berchen arno, oni bai bod ei angen i ddiwallu anghenion y priod arall. Byddai hyd y briodas yn cynnwys y cyfnod blaenorol o gyd-fyw “di-dor”; pwynt a fyddai'n berthnasol wrth benderfynu ar eiddo priodasol. Byddai codeiddio'r gyfraith hefyd yn golygu y byddai'r gyfraith achosion wedi'i setlo yn achos cytundebau priodasol yn cael eu hymgorffori mewn statud, a byddai cytundebau'n cael eu cadarnhau os yn deg, ond ni fyddant yn rhwymol.

Codeiddio-plws

Mae Codeiddio-plws yn fodel sy'n mynd ychydig ymhellach na chodeiddio o ran diwygio. Mae'n cadw buddion codeiddio, i wneud y gyfraith yn fwy cydlynus a hygyrch.

Efallai yr hoffai'r Llywodraeth fanteisio ar y cyfle i ddiwygio'r gyfraith ymhellach. Gallai hyn olygu diwygio meysydd penodol o'r gyfraith a nodir yn ein Cylch Gorchwyl nad ydynt eto'n bwnc cyfraith achosion settledig, fel:

- cytundebau priodasol;
- cynhaliaeth i briod;
- y gyfraith yn ymwneud ag “ymddygiad”;
- pwerau'r llys i wneud gorchmynion rhwymedi ariannol ar gyfer plant 18 oed a hŷn;
- sut mae pensiynau'n cael eu trin.

Rydym yn trafod diwygiadau i'r meysydd hyn o'r gyfraith yn ein Hadroddiad Cwmpasu ac ar dudalennau { } o'r Crynodeb hwn. Gallai diwygio unrhyw rai o'r meysydd hyn gyfyngu ymhellach ar ddisgresiwn a rhoi mwy o sicrwydd, er enghraifft drwy wneud cytundebau priodasol yn rhwymol, neu osod terfyn ar y cyfnod ar gyfer talu cynhaliaeth i briod.

Gallai codeiddio-plws hefyd gynnwys diwygio ychwanegol i feysydd lle mae'r gyfraith yn settledig, fel sut mae eiddo priodasol yn cael ei drin, er enghraifft drwy ddiffinio pa bryd yn union y bydd cartref teuluol yn peidio cael ei drin fel eiddo priodasol.

Disgresiwn dan gyfarwyddyd

O dan y model disgresiwn dan gyfarwyddyd, mae deddfwriaeth yn disgrifio diben cyfraith rhwymedïau ariannol a'r egwyddorion a fydd yn cyfarwyddo sut mae'r gyfraith yn cael ei chymhwyso. Bwriedir i'r model sicrhau eglurder digonol yn y ddeddfwriaeth ei hun i alluogi cyplau sy'n ysgaru i gytuno ar eu trefniadau ariannol eu hunain "yng nghysgod y gyfraith", rhywbeth y dywedwyd wrthym sy'n anodd o dan y gyfraith bresennol.

Mae model sy'n seiliedig ar ddisgresiwn dan gyfarwyddyd yn cadw, i ryw raddau, rywfaent o ddisgresiwn barnwrol, a all gael ei weithredu fesul achos. Fodd bynnag, deddfwriaeth sy'n rhagnodi sut, a phryd, y gellir gweithredu'r disgresiwn.

Yn ein Hadroddiad Cwmpasu rydym yn edrych ar dair enghraifft o ddisgresiwn dan gyfarwyddyd. Rydym yn ystyried cyfraith rhwymedïau ariannol yr Alban a Seland Newydd, a'r cynigion a geir yn y Bil Ysgariad (Darpariaeth Ariannol), cynnig i ddiwygio'r gyfraith a gyflwynwyd gan y Farwnes Deech, sydd wedi'i fodelu ar, ond nad yw'n drawsblaniad uniongyrchol o gyfraith darpariaeth ariannol yr Alban. Rydym yn edrych sut mae pob un o'r tair enghraifft yn rhannu asedau mewn ysgariad, ac yn benodol sut maent yn delio ag eiddo priodasol ac amhriodasol, yn ogystal â'u hymagwedd at gytundebau priodasol a chynhaliaeth i briod. Er bod y rhain yn enghreifftiau defnyddiol o'r dull, nid oes yn rhaid i ddiwygiad sy'n seiliedig ar ddisgresiwn dan gyfarwyddyd efelychu dim un ohonynt, ond gellid yn hytrach cael cynllun pwrpasol sydd wedi'i ddyfeisio ar gyfer Cymru a Lloegr.



Cyfundrefn ddiofyn

Mae cyfundrefn ddiofyn (a adwaenir hefyd fel cyfundrefn eiddo priodasol), yn gosod set o reolau sy'n dod i rym ar ddyddiad y briodas, ac sy'n pennu gyda lefel uchel o sicrwydd y canlyniad ariannol pan ddaw'r briodas i ben. Mae cyfundrefnau o'r fath yn dal i gadw'r posibilrwydd o ddefnyddio disgresiwn mewn meysydd penodol, ond ar raddfa gyfyngedig iawn yn unig. Mae cyfundrefnau diofyn yn gyffredin mewn nifer o awdurdodaethau Ewrop a'r Gymanwlad.

Mae cyfundrefnau eiddo priodasol yn cael eu nodweddu gan nifer o "bileri", gyda phob un yn ymdrin ag agwedd benodol ar rwymedïau ariannol mewn ysgariad. Mae'r gyfraith felly'n cynnwys darpariaethau ar wahân sy'n ymwneud ag eiddo, cynhaliaeth i briod, pensiynau, a chynhaliaeth plant.

Yn ein Hadroddiad Cwmpasu rydym yn edrych ar brif nodweddion y mathau mwyaf cyffredin o gyfundrefnau eiddo priodasol. Rydym yn trafod effeithiau tebygol y gwahanol gyfundrefnau, gan ystyried pileri ychwanegol cynhaliaeth i briod a phlant (pan yn berthnasol). Mae'n bwysig, fodd bynnag, nodi fod y cyfundrefnau hyn yn gweithredu o fewn cyd-destun economaidd gymdeithasol yr awdurdodaethau rheini.

Byddai mabwysiadu cyfundrefn ddiofyn yng Nghymru a Lloegr yn gofyn am ddiwygio'r gyfraith yn llwyr. Byddai'n rhaid ystyried a ddylai priodas gael effaith ar unwaith ar hawliau eiddo, neu, a fyddai unrhyw hawliau'n cael eu cynhyrchu drwy ysgariad (dyna yw'r achos o dan y gyfraith bresennol).

Mae cyfundrefnau diofyn mewn awdurdodaethau eraill yn mynd law yn llaw ag argaeledd cytundebau priodasol rhwymol, sy'n golygu bod y ddau briod yn rhydd i ddewis opsiwn heblaw am y gyfundrefn ddiofyn ar unrhyw adeg. Dylai unrhyw ystyriaeth i gyfundrefn ddiofyn hefyd gynnwys ystyried cyflwyno cytundebau priodasol rhwymol, fel yr ydym yn ei drafod ar dudalennau 17 ac 18 o'r Crynodeb hwn.

Meysydd posibl i ddiwygio'r gyfraith

Mae ein Cylch Gorchwyl yn nodi materion penodol sy'n gysylltiedig â'r gyfraith rhwymedïau ariannol a ystyriwyd gennym fel rhan o'n prosiect cwmpasu. Mae'r Crynodeb hwn yn cynnwys adroddiad byr ar y mater a'r awgrymiadau ar gyfer diwygio a wnaed yn achos pob mater. Er y gallai diwygio'r materion hyn gael ei ymgorffori mewn model codeiddio-plws, gan eu bod yn golygu diwygio'r gyfraith bresennol a geir yn Neddf Achosion Priodasol 1973, mi allai fod modd rhoi sylw iddynt fel rhan o fodel disgresiwn dan gyfarwyddyd, neu hyd yn oed fodel sy'n cyflwyno cyfundrefn ddiofyn.

Cytundebau priodasol

Mae cytundebau priodasol yn gytundebau a wneir rhwng cyplau naill ai cyn neu yn ystod eu priodas, sy'n penderfynu sut y bydd eu hasedau'n cael eu rhannu os byddant yn ysgaru. Nid yw cytundebau priodasol yn rhwym mewn cyfraith yng Nghymru a Lloegr, er bod y Goruchaf Lys wedi dyfarnu yn achos *Radmacher v Granatino* yn 2010 y dylai cytundebau o'r fath gael eu cadarnhau os ydynt ac wedi'u llunio o'u gwirfodd gan y ddwy ochr.

Yn Adroddiad Comisiwn y Gyfraith (2014) ar Eiddo, Anghenion a Chytundebau Priodasol, roedd yn argymhell y dylai fod modd i gyplau lunio cytundebau priodasol rhwymol, a elwid gennym yn Gytundebau Priodasol Cymwys (CPC), ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â threfniadau diogelu cyfreithiol. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys bod y cwpl yn cael cyngor cyfreithiol annibynnol, eu bod yn cael gwybodaeth berthnasol am sefyllfa ariannol ei gilydd, a bod y cytundeb yn cael ei lunio yn ddim llai na 28 diwrnod cyn y briodas.

Yn bwysig, argymhellwyd gennym na ddylai fod yn bosibl i ddefnyddio QNA i gcontractio allan i ddarparu ar gyfer anghenion ariannol. Ystyr "anghenion ariannol" i'r diben hwn fyddai'r hyn a geir yn y gyfraith bresennol, a nodwyd gennym fel cynnwys anghenion

cyfalaf ac incwm. Lle'r oedd QNA mewn grym, byddai'r llys yn gallu defnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yn unig yn achos un o'r ddau briod i ddiwallu anghenion y naill briod neu anghenion plentyn o'r briodas.

Cafodd ein hargymhellion am QNA eu hymgorffori mewn Bil Cytundebau Priodasol drafft sydd wedi'i atodi at ein Hadroddiad Eiddo, Anghenion a Chytundebau Priodasol. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth wedi gweithredu ar ein hargymhellion.

Ers Adroddiad 2014, mae'r llysoedd wedi parhau i gadarnhau cytundebau priodasol pan oeddent wedi cael eu llunio o'u gwirfodd a heb fod dan bwysau, ar yr amod fod y ddarpariaeth yn y cytundeb yn diwallu anghenion y ddau briod ac unrhyw blant. Lle nad yw cytundebau'n diwallu anghenion, mae'r llys wedi bod yn barod i wyro oddi wrth eu telerau.

Byddai unrhyw ddiwygiad i'r gyfraith yn ymwneud â chytundebau priodasol yn dibynnu ar y model diwygio a fyddai'n cael ei fabwysiadu gan fod ein hargymhellion o 2014 yn seiliedig ar y gyfraith bresennol lle mae anghenion yn chwarae rôl ganolog. Gallai ein Bil Cytundebau Priodasol drafft gael ei fabwysiadu fel rhan o fodel

codeiddio-plws, neu mi allai darpariaeth ar gyfer cytundebau priodasol rhwymol fod yn rhan o fodel disgresiwn dan gyfarwyddyd neu fodel cyfundrefn ddiofyn.

Wrth inni ymgysylltu â rhanddeiliaid awgrymwyd fod cefnogaeth gyffredinol dros weithredu ein hargymhellion ar gyfer QNA. Fodd bynnag, os yw “anghenion” am barhau i fod yn ganolog i unrhyw gyfraith ddiwygiedig, un mater y byddai’n rhaid ei ddatrys yw sut y dylai anghenion gael eu hystyried mewn cytundeb priodasol – a ddylai anghenion gael yr un ystyr ag yn achos hawliad rhwymedïau ariannol lle nad oes cytundeb priodasol, ynteu a ddylai fod modd dehongli anghenion mewn ffordd fwy cyfyngol mewn cytundeb priodasol? Yn yr un modd, roedd nifer fach o randdeiliaid yn credu y dylai fod yn bosibl i beidio â chynnwys darpariaeth ar gyfer anghenion priod yn gyfan gwbl, gan ganiatáu i’r cwpl unio pa bynnag gytundeb y mynnent

Cynhaliaeth i briod

Cynhaliaeth i briod yw darpariaeth a wneir i gyn briod o dan orchymyn rhwymedïau ariannol. Fe’i gwneir fel arfer ar ffurf taliadau cyfnodol (er bod modd i’r rhain gael eu cyfalafu fel cyfandaliad) a gellir eu caniatáu yn ychwanegol at unrhyw orchymyn eiddo neu gyfandaliad.

O dan y gyfraith bresennol, wrth wneud gorchymyn cynhaliaeth i briod rhaid i’r llys ystyried a fyddai’n briodol i’r taliadau gael eu gwneud am gyfnod yn unig a fyddai, ym marn y llys, yn ddigonol i alluogi’r priod sy’n derbyn i addasu heb galedi gormodol i derfynu eu dibyniaeth ariannol ar y parti arall. Mae hyn yn rhan o ddyletswydd y llys i ystyried a fyddai “toriad llwyr” rhwng y ddau briod yn briodol.

Mae ein Cylch Gorchwyl yn golygu ei bod yn ofynnol inni ystyried a oes lle i ddiwygio’r gyfraith i ymgorffori uchafswm tymor ar gyfer cynhaliaeth i briod.



Mae rhai sylwedyddion wedi galw am derfyn ar gynhaliaeth i briod; er enghraifft, y dylai gael ei gyfyngu i 5 mlynedd heblaw mewn achosion o galedi ariannol difrifol. Mae cefnogwyr y farn hon wedi awgrymu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu “tocyn cinio am oes” i wragedd, er bod ymchwil wedi dangos bod gorchmynion sy’n caniatáu cynhaliaeth am oes gyfan i briod yn anghyffredin dros ben.

Dyma ganfyddiadau’r adroddiad Fair Shares am rôl cynhaliaeth i briod:

- dim ond 22% o’r rhai a holwyd oedd â threfniant cynhaliaeth;
- o’r trefniadau cynhaliaeth rheini, roedd 88% am gyfnod penodol;
- roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o gael cynhaliaeth i briod;
- mae trefniadau cynhaliaeth yn fwy tebygol lle mae plant o’r briodas, neu lle’r oedd gan un priod salwch neu anabledd; ac
- mewn 76% o’r achosion lle’r oedd trefniant cynhaliaeth i briod, roedd ei derfynu’n gysylltiedig â digwyddiad penodol, fel plentyn yn cyrraedd oed penodol neu botensial y priod sy’n derbyn i ennill cyflog. Dim ond 20% oedd am nifer penodol o flynyddoedd.

Roedd llawer o’n rhanddeiliaid yn bryderus am yr effaith y gallai effaith terfyn tymor hir ar orchmynion cynhaliaeth ei gael ar briod agored i niwed, er bod cefnogaeth i derfyn ymhlith eraill.

Hyd yn oed lle’r oedd rhanddeiliaid yn mynegi cefnogaeth i derfyn amser, roedd llawer o blaid cadw peth disgresiwn, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. Nid oedd llawer o gonsensws ynglŷn â’r hyn a fyddai’n cyfrif fel eithriadau i’r terfyn, nac ychwaith a ddylai’r eithriad fod mor eang ag oedd angen i gyflawni canlyniad teg.

Plant 18 oed a hŷn

Mae ein Hadroddiad Cwmpasu hefyd yn ystyried a ddylai’r llysoedd gael pwerau ehangach i wneud gorchmynion yn achos plant y teulu sydd eisoes wedi cyrraedd 18 oed.

Mae cynhaliaeth plant, sy’n cael ei dalu drwy’r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant, yn dod i ben pan fydd y plentyn yn cwblhau eu haddysg uwchradd neu hyfforddiant. Rydym yn nodi yn yr Adroddiad Cwmpasu bod y llys, mewn rhai amgylchiadau, yn gallu gwneud gorchmynion cynhaliaeth i blant o dan 18 oed gan ddefnyddio Deddf Achosion Priodasol 1973, ond nad ydym yn ystyried hynny yn y Crynodeb hwn.

Dywed Deddf Achosion Priodasol 1973 y bydd cymorth ariannol i blant yn dod i ben fel arfer pan fyddant yn cyrraedd 18 oed, er bod pwerau cyfyngedig i wneud darpariaeth i blentyn heibio’r oedran hwn, pe baent mewn addysg neu hyfforddiant, neu lle mae “amgylchiadau arbennig”. Mae amgylchiadau arbennig wedi eu dehongli gan amlaf i olygu anabledd corfforol neu feddyliol y plentyn sy’n creu angen ariannol ymlaen i oedolaeth.

Dywedwyd wrthym fod y gyfraith bresennol yn anfoddhaol, gan fod mwy a mwy o rieni’n dal i roi cymorth ariannol i blant ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed. Roedd ein rhanddeiliaid yn cydnabod bod baich ariannol gofalu am blentyn o’r fath yn aml yn cael ei ysgwyddo gan y rhiant sy’n byw â hwy.

Canfu'r adroddiad Fair Shares fod 84% o unigolion wedi ysgaru sydd â phlant 18 oed a hŷn yn eu cynnal yn ariannol ar adeg yr ysgariad. Roedd y nifer wedyn yn gostwng i 69% bum mlynedd ar ôl yr ysgariad. Canfu Fair Shares hefyd fod mamau yn fwy tebygol na thadau o fod â phlant 18 oed a hŷn yn byw gyda hwy gartref, gyda thadau'n fwy tebygol o fod yn rhoi cymorth ar ffurf taliadau ariannol i'w plant ar gyfer prifysgol neu astudiaethau eraill.

Awgrymodd rhanddeiliaid y dylai pwerau'r llys i orchymyn darpariaeth ariannol ar gyfer plant 18 oed a hŷn gael ei ymestyn. Awgrymwyd y dylai'r oedran pan fydd y ddarpariaeth yn dod i ben yn ddiodyn - 18 oed ar hyn o bryd - gael ei godi, o bosibl i 21 oed. Neu, gallai'r ddarpariaeth ariannol ddod i ben ar adeg digwyddiad penodol, fel pan fydd y plentyn yn cwblhau gradd israddedig gyntaf, neu'n dod yn annibynnol yn ariannol.



Ymddygiad

Un o'r ffactorau y gall llys eu hystyried wrth benderfynu gwneud gorchymyn rhwymedïau ariannol yw "the conduct of each of the parties, os that conduct is such that it would in the opinion of the court be inequitable to disregard it", fel y nodir yn isadran 28(2)(g) o Ddeddf Achosion Priodasol 1973. Nid oes diffiniad statudol o ymddygiad o'r fath.

Mae ein Cylch Gorchwyl yn datgan bod yn rhaid inni ystyried a oes cwmpas i ddiwygio "ymddygiad" fel ffactor y mae'n rhaid i'r llys ei ystyried. O dan y gyfraith achosion bresennol, daw ymddygiad o fewn pedwar categori:

- camymddwyn personol gan un priod tuag at y llall;
- gwastraffu asedau mewn ffordd afrad a diofal;
- camymddygiad ymglyfreithia; a
- methiant i gyflwyno gwybodaeth lawn a didwyll am arian.

Roedd ein rhanddeiliaid yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffordd mae camymddwyn personol yn cael ei drin. Mae materion penodol wedi codi yn achos delio â cham-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol a cham-drin economaidd, ac a ddylai cam-drin o'r fath gael mwy o ystyriaeth fel ymddygiad. Mae hyn yn adlewyrchu trafodaeth ehangach sy'n cael ei chynnal ar y pwnc.

Mae'r gyfraith achosion bresennol yn awgrymu y byddai camymddwyn personol yn berthnasol yn unig os yw'n "gross and obvious" – mae'r gyfraith achosion yn cyfeirio hefyd at ymddygiad sy'n achosi "a gasp rather than a gulp" — ac sydd â chanlyniad ariannol uniongyrchol. Mae enghreifftiau o ymddygiad o'r fath yn cynnwys achosion lle mae'r gŵr wedi ceisio llofruddio ei wraig, a oedd yn analluog i weithio o ganlyniad.

Mae rhai sylwedyddion a rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i gam-drin domestig fel ymddygiad. Cyfeiria'r rhanddeiliaid hyn at ddioddefwyr-goroeswyr camdriniaeth (sy'n fenywod yn bennaf) sy'n dioddef canlyniadau ariannol gwael yn dilyn ysgariad ac y dylai canlyniadau ariannol cam-drin domestig gael eu hysgwyddo gan y cyflawnwyr.

Ar y llaw arall, roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys aelodau o'r farnwriaeth, yn awgrymu bod y gyfraith eisoes yn gallu ystyried cam-drin domestig pan fo hynny'n berthnasol, fel rhan o ystyriaeth y llys i anghenion y ddau briod, gan ei gwneud yn ddiangen i ystyried cam-drin fel ymddygiad.

Dywed y rhanddeiliaid hyn pe byddai'n haws i gam-drin domestig gael ei drin mewn cyfraith fel ymddygiad y byddai hynny'n golygu y byddai angen i'r llys dreulio mwy o amser yn edrych ar dystiolaeth o gam-drin o'r fath, ac y gallai hynny achosi problemau ymarferol o ran y pwysau sydd ar adnoddau'r llysoedd, oedi, cynnydd mewn costau, mwy o ddrwgdeimlad rhwng y ddau briod a llai o siawns y byddant yn cyrraedd setliad ariannol ymhlith ei gilydd. Awgrymwyd hefyd y byddai rôl fwy i ymddygiad yn mynd yn groes i'r polisi o waredu "bai" o ysgariad.

Daw ein Hadroddiad Cwmpasu i'r casgliad y byddai'n fuddiol pe bai'r gyfraith yn datgan yn glir:

- pa fathau o ymddygiad a fyddai'n cael eu hystyried fel ymddygiad (boed yn gamymddwyn personol neu gamymddwyn ymgyfreithia);
- yr effaith y bydd yr ymddygiad hwnnw'n ei gael ar hawliad am rwymedïau ariannol;
- y broses i'w mabwysiadu wrth wneud honiad o ymddygiad.

Pensiynau

Canfu'r adroddiad Fair Shares hefyd nad oes gan lawer o gyplau ddim neu fawr ddim ymwybyddiaeth o bensiwn eu priod: nid oedd 24% o unigolion a oedd yn ysgaru yn gwybod a oedd gan eu priod bensiwn hyd yn oed (heb sôn am wybod ei werth). Roedd menywod yn llai tebygol na dynion o wybod a oedd gan eu priod bensiwn. Mae hyn yn achos pryder inni, oherwydd i lawer o gyplau sy'n ysgaru, asedau pensiwn yw eu hased mwyaf gwerthfawr, a hynny ar ôl ystyried cyn gartref y teulu hyd yn oed.

Gall y llys wneud gorchmynion i rannu pensiwn unigolyn, fel y bydd priod yr unigolyn yn cael cyfran; gelwir hwn yn orchymyn rhannu pensiynau. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad Fair Shares mai dim ond 11% o gyplau sy'n ysgaru (nad oedd yn codi eu pensiwn eto) sydd â threfniadau rhannu pensiwn.

Yn hytrach, y ffordd fwyaf cyffredin o ddelio â phensiynau yw gwrthbwysu – lle mae priod yn hytrach na chael cyfran o bensiwn, yn cael cyfran fwy o asedau eraill. Nid oes diffiniad cyfreithiol o wrthbwysu ac nid oes angen gorchymyn llys. Mae hefyd yn golygu cymharu mathau gwahanol iawn o asedau: asedau pensiwn yn erbyn, fel arfer, cartref y teulu.

Mae nifer o resymau pam mae cyplau'n gwrthbwysu. Mae llawer yn edrych ar bensiynau fel rhywbeth sy'n eiddo i'r priod sydd wedi cyfrannu atynt, ac nad ydynt felly'n addas i'w rhannu. Yn yr un modd, mae llawer o gyplau'n dewis gwrthbwysu yn hytrach na rhannu pensiynau i alluogi'r prif ofalwr i aros yng nghartref y teulu. Ac, yn bwysig, nid yw'r rhan fwyaf o gyplau'n cael gorchymyn sy'n setlo eu materion ariannol, felly ni fyddai gorchymyn rhannu pensiwn ar gael yn yr amgylchiadau hynny.

Mae sylwedyddion wedi mynegi pryder bod gwrthbwysu'n gallu achosi annhegwch, yn enwedig i fenywod gan fod eu llesiant ariannol tymor hir yn cael ei anwybyddu ar draul ochr ymarferol eu hanghenion ariannol cyfredol. Mae menywod yn aml yn cymryd amser i ffwrdd o'r gweithle neu'n gweithio'n rhan amser, yn benodol i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau gofal, ac, o ganlyniad, mae eu cronfeydd pensiwn yn llai na rhai dynion.

Mae ein sgysiau â rhanddeiliaid yn adlewyrchu canfyddiadau gweithiau ymchwil eraill – sef bod pensiynau'n cael eu gweld gan gyplau sy'n ysgaru fel rhywbeth cymhleth ac anodd, ac nad yw eu gwerth yn cael ei gydnabod yn llawn, neu ddim o gwbl mewn rhai achosion. Barn gyffredinol y rhanddeiliaid oedd y dylai unrhyw ddiwygiadau i'r gyfraith rhwymedïau ariannol ystyried sut mae pensiynau'n cael eu trin yn ystod ysgariad. Yn ein Hadroddiad Cwmpasu rydym yn edrych ar awgrymiadau ar gyfer diwygio – er enghraifft, a ddylai rhannu pensiynau gael ei grybwyll yn benodol yn y gyfraith, neu hyd yn oed ai rhannu pensiynau ddylai'r safbwynt diofyn fod.

Amcan ar gyfer unrhyw gyfraith ddiwygiedig?

Nid yw'r gyfraith bresennol a geir yn Neddf Achosion Priodasol 1973 bellach yn cynnwys amcan statudol, er ei bod wedi'i dehongli fel gofyniad ymhlyg bod y llys yn sicrhau canlyniad teg. Ynghlwm wrth degwch mae'r egwyddor o gydraddoldeb – ni ddylid gwahaniaethu rhwng rolau'r partïon mewn priodas na phartneriaeth sifil. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r tybiaethau polisi y mae ein Hadroddiad Cwmpasu'n seiliedig arnynt.

Yn ychwanegol at benderfynu ar fodel ar gyfer diwygio, efallai y bydd y Llywodraeth yn dymuno ystyried a ddylai unrhyw egwyddorion eraill gael eu cynnwys i ategu unrhyw gyfraith ddiwygiedig a chael eu cynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygiedig. Os felly bydd yn rhaid iddi benderfynu faint o bwyslais a roddir ar unrhyw egwyddorion o'r fath. Bydd unrhyw benderfyniad ar egwyddorion ategol yn llywio sut bydd gwaith diwygio yn y dyfodol sy'n seiliedig ar fodel penodol yn cael ei wneud.

Casgliad a beth fydd yn digwydd nesaf

Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r gyfraith bresennol yn rhoi fframwaith cydlynus i alluogi partïon mewn ysgariad i ddisgwyl canlyniadau teg a digon sicr. Gallai unrhyw un o'r pedwar model ar gyfer diwygio a nodwyd gennym fod yn sail i system ddiwygiedig o rwymedïau ariannol, a fyddai'n rhoi sylw i o leiaf rai o'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid a rhai sy'n feirniadol o'r gyfraith bresennol.

Adroddiad Cwmpasu yw hwn, felly nid ydym wedi gwneud dim argymhellion i ddiwygio'r gyfraith.

Mater i'r Llywodraeth yn awr fydd ystyried ac ymateb i Adroddiad Cwmpasu Comisiwn y Gyfraith. O dan y protocol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (ar ran Llywodraeth y DU) a Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, bydd y Gweinidog cyfrifol yn ymateb cyn gynted â phosibl, gydag o leiaf ymateb interim o fewn chwe mis i gyhoeddi'r Adroddiad Cwmpasu ac ymateb llawn o fewn blwyddyn.



